| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **3 Rhagfyr 2010** |
| **TEITL** | **Cyfyngu'r rhyddhad treth ar gynilion pensiwn** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Er gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Gareth Jones – Rheolwr Pensiynau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **I nodi'r cynnwys** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yng nghyllideb Mehefin 2010 cadarnhaodd y llywodraeth ei ymrwymiad i gyfyngu'r lefel o ryddhad dreth ar gael wrth gronni hawliau pensiwn blynyddol a gydol oes mewn ffurf a oedd i "Sicrhau bod trefn rhyddhad treth ar bensiynau yn parhau yn deg a chynaliadwy, ac i warchod arian y wlad".

1.2 Dweder y Llywodraeth ei fod yn darparu rhyddhad treth hael i gynilo hawliau pensiwn i annog unigolion gymryd cyfrifoldeb dros gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad ac i gydnabod bod cynilion pensiynau ddim mor hyblyg â mathau eraill o gynilo. Roedd cost darparu rhyddhad treth net o dreth incwm oddeutu £19bn yn 2008-09.

## 2. CRYNODEB O'R DREFN TRETH AR BENSIYNAU NEWYDD

2.1 O Ebrill 2011 gostyngir y Lwfans Blynyddol (LB) ar gyfer cynilo treth-freintiedig o'i lefel presennol o £255,000 i £50,000. Bydd rhyddhad treth yn weithredol ar raddfa ffiniol yr unigolyn.

2.2 Prisir gwerth cyfraniadau tybiaethol i gynlluniau pensiwn buddion diffinedig (BD) ar sail "cyfradd unffurf" o 16 gyda hawl i unigolion unioni unrhyw ormodedd dros y LB yn erbyn lwfansau nas defnyddiwyd yn y dair blynedd flaenorol.

2.3 Gofynnwyd am gyngor Actiwari'r Llywodraeth ar lefel priodol y ffactor a phenderfynwyd ei osod fel 16 - a olygir, yn fras, bod cynnydd o £1,000 mewn buddion pensiwn yn werth £16,000 yn erbyn y lwfans. Adbrisir gwerth buddion y flwyddyn flaenorol yn erbyn yr indecs 'CPI' gyda chroniad negyddol yn cael ei drin fel sero. .

2.4 Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar opsiynau fydd yn galluogi unigolion fydd yn gweld cynyddiad sylweddol mewn hawliau pensiwn mewn blwyddyn neilltuol i dalu'r dreth allan o'u pensiwn yn hytrach na o incwm cyfredol.

2.5 Penderfynwyd eithrio aelodau gohiriedig o'r drefn.

2.6 Mae'r Llywodraeth yn credu y dylid gweithredu'r cyfyngiad ar ryddhad treth pensiwn mewn ffordd deg i unigolion gyda gwahanol amgylchiadau cyn belled a bosib, ond bod rhaid iddo fod yn gadarn i risg osgoad.

2.7 Hefyd, mae'n glir nid yw'n addas gweithredu'r prawf LB yn flwyddyn marwolaeth nac mewn blwyddyn lle telir cyfandaliadau i unigolion sydd wedi derbyn diagnosis salwch (terfynol) difrifol.

2.8 Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod y byddai'n amhriodol gweitrhredu'r LB mewn rhai achosion o salwch mwyaf difrifol a bydd hefyd yn edrych at eithrio buddion salwch o'r drefn LB.

2.9 Nid yw'r Llywodraeth yn credu y dylid gwneud eithriad ar gyfer unigolion yn cael eu diswyddo. Mae'r rhan fwyaf o becynnau diswyddo yn cynnwys rhagdaliad, gyda'r £30,000 cyntaf yn rhydd o dreth. Mewn llawer o achosion mae'r pecyn tâl cyfan yn llai na £50,000.

2.10 Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i gynlluniau addasu a darparu mwy o hyblygrwydd yn y dewisiadau ar gael i aelodau ar sut i gymryd pecynnau diswyddo, ac yn yr achosion prin hynny lle gwelir taliadau diswyddo yn achosi sbigyn yng nghroniad pensiwn, y credir bod yr hawl i ddwyn drosodd gwerth hyd at dair blynedd o lwfansau rhydd o hyd at dair blynedd flaenorol yn debygol o leddfu'r gormodedd dros y LB yn rhan fwyaf o achosion.

2.11 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gosod allan manylion pellach ar sut i weithredu eithriadau wrth reoli'r risgiau osgoad fydd yn agor i fyny mewn cymalau drafft i'w cynnwys yn y Bil Cyllid 2001 i'w gyhoeddi at bwrpas ymgynghoriad yn hwyr yn 2010.

2.12 Yn ogystal, ac yn ddarostyngedig i ganlyniad ymgynghoriad ar fanylion a'i ymdriniaeth, bwriedir gostwng y lwfans gydol oes o'i lefel presennol o £1.8m i £1.5m o Ebrill 2012.

2.13 Er nid oes cadarnhad o'r manylion terfynol ar sut i weithredu'r drefn newydd hyd yma, disgwylir mai cyfrifoldeb aelodau unigol yw monitro ac adrodd unrhyw ormodedd croniad i CthEM. Fodd bynnag, disgwylir fod gweinyddwyr cynlluniau pensiwn angen hysbysu aelodau am werth croniadau blynyddol a hynny o fewn amserlen benodedig.

## 3. GWEITHREDIAD AC ANGHENION

3.1 Cynhyrchwyd newyddlen ar hyn a newidiadau eraill eisoes a fydd wedi' ddosbarthu i aelodau erbyn dyddiad y cyfarfod yma. Postir gwybodaeth debyg ar safle we'r Gronfa.

3.2 Bydd angen uwchraddio'r meddalwedd gweinyddol yn ogystal â galw ar gyflogwyr y gronfa i ddarparu' adroddiadau cyfraniadau blynyddol yn gynharach nag yn bresennol i alluogi'r uned weinyddu prosesu a chynhyrchu'r Datganiadau Buddion Blynyddol o fewn yr amserlen a osodir gan CthEM.